# Strategaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru 2013-2016

Ebrill 2013



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rydym wedi ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid wrth baratoi'r ddogfen hon, yn cynnwys pobl Cymru a'u cynrychiolwyr, cyrff cyhoeddus Cymru a'u cynrychiolwyr, a'n staff.


Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn 029 2032 0500
Facs 029 2032 0600
Ebost info@wao.gov.uk
Gwefan www.wao.gov.uk
Twitter @WalesAudit


© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2013

# Cyflwyniad



Fy ngweledigaeth fel Archwilydd Cyffredinol Cymru yw bod pobl Cymru yn glir ynghylch pa mor ddoeth y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario ar eu rhan: ac y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei chydnabod fel sefydliad effeithiol wedi'i lywodraethu'n dda sy'n cynnig gwybodaeth ac anogaeth ddefnyddiol i gyrff cyhoeddus am sut y gallant wella gwasanaethau.

Mae ein strategaeth yn seiliedig ar yr adborth a gawsom gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, ar yr hyn a fyddai'n galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i chwarae rhan lawn yn y broses o gefnogi gwasanaethau cyhoeddus atebol wedi'u rheoli'n dda sy'n sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian i bobl Cymru. Yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'r amgylchedd y mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu o'i fewn, gwnaethom ymgynghori ar chwe phrif flaenoriaeth strategol mewn perthynas â'n dull o gynnal archwiliadau cyhoeddus ar gyfer y tair blynedd nesaf (2013-2016). Dywedwyd wrthynt y byddem yn:

- Cynnal ein gwaith archwilio gan roi pwyslais ar galedi
- Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da
- Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd
- Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys adroddiadau ar gydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg
- Gweithio'n agosach gyda chyrff adolygu allanol eraill a gwella'r ffordd rydym yn rhedeg ein busnes yn ystod cyfnod pontio
- Codi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chynyddu diddordeb ynddo, gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol

Rydym wedi addasu rhai elfennau o'r Strategaeth o ystyried y sylwadau defnyddiol iawn a gawsom ac o ganlyniad i'r newidiadau hyn, ceir mwy o ffocws ar rai materion allweddol, megis rôl partneriaethau wrth ddarparu. Rydym hefyd wedi datblygu cyfres o fesurau llwyddiant y gallwn ni, ac eraill, eu defnyddio i werthuso ein cynnydd wrth gyflawni'r Strategaeth yn eu herbyn. Byddwn yn comisiynu cymorth allanol i werthuso'r cynnydd hwn a'r effaith a gawn ar ran dinasyddion.

Rydym yn wynebu newidiadau i'n trefniadau llywodraethu o ganlyniad i ddeddfwriaeth arfaethedig, ac mae'r Bwrdd Cysgodol, a fu'n treialu'r trefniadau hynny, wedi helpu i fireinio ein dealltwriaeth o'r amcanion y mae angen i ni eu pennu ar gyfer y tair blynedd nesaf.

O ganlyniad i'r broses a fabwysiadwyd gennym, rwy'n hyderus bod ein diagnosis a'n dull arfaethedig yn addas at y diben ac y byddant yn helpu Swyddfa Archwilio Cymru i gefnogi gwelliant yn ystod cyfnod anodd.

Huw Vaughan Thomas

*Archwilydd Cyffredinol Cymru*

# Crynodeb o'r strategaeth

## Ein nod

Mae pobl Cymru yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth ac mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn deall sut i wella canlyniadau.

## Ein hamcanion

Rhoi sicrwydd amserol ar y ffordd y caiff arian cyhoeddus ac asedau eu llywodraethau a'u gwarchod.

Rhoi cipolwg defnyddiol o'r graddau y defnyddir adnoddau yn dda i ddiwallu anghenion pobl.

Nodi'n glir a hyrwyddo ffyrdd y gellir gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Bod yn sefydliad atebol ac effeithlon a reolir yn dda sy'n darparu amgylchedd gwaith ysgogol a buddiol.

| Ffactorau amgylcheddol allweddol | Camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd mewn ymateb |
|---|---|
| Rydym mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol | Cynnal ein gwaith archwilio gan roi pwyslais ar galedi |
| Mae polisi yng Nghymru a pholisi yn Lloegr yn parhau i ymwahanu drwy broses ddatganoli gynyddol | Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da |
| Mae diddordeb yn effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu yn cynyddu ac erbyn hyn mae cwmpas ehangach i ofynion adrodd | Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd |
| Mae dyletswyddau a safonau trawsbynciol, newydd wedi'u cyflwyno yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac maent yn parhau i gael eu cyflwyno | Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, ar gydraddoldeb ac ar y defnydd o'r iaith Gymraeg |
| Mae'r dirwedd adolygu allanol yn parhau i ddatblygu | Gweithio'n agosach gyda chyrff adolygu allanol eraill a gwella'r ffordd rydym yn rhedeg ein busnes yn ystod cyfnod pontio |
| Rydym yn byw mewn cymdeithas fwyfwy rhwydweithiol | Codi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chynyddu diddordeb ynddo, gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Amdanom ni | 6 |
| Ein nod a’n hamcanion allweddol | 8 |
| Ein hamgylchedd gweithredu | 9 |
| Sut y byddwn yn ymateb | 14 |
| Monitro a chofnodi ein perfformiad | 20 |
| Atodiad - Crynodeb o’n strategaeth ar gyfer y gweithlu a’n strategaeth ariannol yn y tymor canolig | 23 |

# Amdanom ni

1 Mewn democratiaeth, mae llywodraethau yn atebol i'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig. Er mwyn hwyluso'r atebolrwydd hwn, mae'n rhaid i'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr gael digon o wybodaeth am weithgareddau'r llywodraeth a'r defnydd a wna o arian cyhoeddus; mae angen gwybodaeth ddiduedd, cywir, cynhwysfawr a chlir yn eu cylch. Felly mae archwiliadau annibynnol o weithgareddau'r llywodraeth yn elfen hanfodol o atebolrwydd democrataidd.

2 Mae gwaith archwilio yn ychwanegu gwerth at gymdeithas drwy roi sicrwydd, ysgogi penderfyniadau gwell a chanlyniadau gwell a helpu i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd o ran gwasanaethau cyhoeddus. Mae llywodraeth ddilys yn seiliedig ar ymddiriedaeth y cyhoedd ac archwilwyr allanol yw gwarcheidwaid yr ymddiriedaeth hon.

3 Fodd bynnag, ni all gwaith archwilio gymryd lle cyfrifoldebau llywodraethau a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill. Cyfrifoldeb darparwyr gwasanaethau yw sicrhau y cynhelir busnes cyhoeddus yn unol â'r gyfraith a safonau cywir, ac y diogelir arian cyhoeddus, y rhoddir cyfrif cywir amdano, ac y caiff ei ddefnyddio yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

4 Yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddo mewn llywodraeth leol yw archwilwyr allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru[1]. Maent yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn a ddyfernir yn flynyddol gan y Cynulliad Cenedlaethol[2]. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo elfennau o'r arian hwn i'r GIG yng Nghymru (dros £5 biliwn) ac i lywodraeth leol (bron £4 biliwn).

5 Ar hyn o bryd, mae'r Archwilydd Cyffredinol a'i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2005. Yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac mae ganddo gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio'r Swyddfa yn gyffredinol yn ogystal â'i gweithdrefnau mewn perthynas â materion ariannol a materion eraill.

6 Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddo mewn llywodraeth leol yn cyflawni rhaglen helaeth ond cymesur o waith archwilio allanol. Mae'r rhaglen gyffredinol yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, asesiadau llywodraeth leol, ardystio hawliadau am grant a hwyluso'r Fenter Twyll Genedlaethol[3]. Caiff tua dwy ran o dair o'r gwaith archwilio blynyddol ei gyflawni gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi gweddill y gwaith ar gontract[4] i gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat ac yn contractio sgiliau a gwasanaethau arbenigol i helpu'r gwaith o gyflawni'r rhaglen.

7 Nodir arfer da o'n holl waith archwilio ac fe'i lledaenir drwy'r Gyfnewidfa Arfer Da (adnodd ar-lein sydd ar gael am ddim i bawb) a chyfryngau eraill gan gynnwys drwy seminarau dysgu a rennir.

8 Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012, gwariant blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol ar waith archwilio allanol a gweithgareddau cysylltiedig oedd £23.7 miliwn. Er ei fod yn swm sylweddol o arian cyhoeddus, mae hyn yn cyfateb

1 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006 a deddfwriaeth arall yn rhoi sail statudol ar hyn o bryd i'r Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddo mewn llywodraeth leol gyflawni eu diben yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn 2012 cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Un o nodweddion y Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yw ei fod yn gwneud darpariaeth i'r Archwilydd Cyffredinol weithredu fel archwilydd statudol cyrff llywodraeth leol.

2 Daeth yr adnoddau y gwnaed cais amdanynt a'r incwm cronedig ar gyfer Gweinidogion Cymru a Chyrff a Ariennir yn Uniongyrchol i gyfanswm o £14.8 biliwn yng Nghynnig Cyllidebol Blynyddol 2013-14; Cynulliad Cenedlaethol, Tachwedd 2012.

3 Rhoddir crynodeb o brif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddo mewn llywodraeth leol, ochr yn ochr â ffynonellau ariannu cysylltiedig, yn Atodiad 1 i'r Amcangyfrif o incwm a threuliau swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014, fel y'i cyflwynwyd i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

4 Gan gynnwys archwiliadau o fwy na 700 o gynghorau cymuned a thref sy'n destun cyfundrefn archwilio 'sicrwydd cyfyngedig'.

i lai na phumed ran o un geiniog am bob punt o'r £15 biliwn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Mae manteision ein gwaith yn fwy o lawer na'r costau sy'n gysylltiedig ag ef, gan gynnwys lle mae'n arbed arian i gyrff cyhoeddus ac yn cael effeithiau ehangach sy'n helpu i sicrhau y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yn fwy effeithiol.

9 Nod yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff yw dilyn *Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus*, fel y'u diffinnir gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, yn eu holl waith, sef: anhunanoldeb, cywirdeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

10 Mae gwerthoedd craidd Swyddfa Archwilio Cymru fel a ganlyn:

- Annibyniaeth a gwrthrychedd – mae herio adeiladol a diduedd yn ganolog i'n gwaith
- Rhagoriaeth – rydym yn broffesiynol o ran popeth a wnawn ac yn ceisio arwain drwy esiampl
- Cyflawni ac effaith – rydym yn awyddus iawn i wella gwasanaethau cyhoeddus ac yn ymfalchïo yn ansawdd ac amseroldeb ein gwaith
- Ystwythder – rydym yn ymateb i'r bobl sy'n defnyddio, yn darparu ac yn llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus
- Cyd-barch a gwaith tîm - mae gennym etheg tîm gynhwysol ac rydym yn trin pawb gyda pharch, tegwch a chwrteisi


# Ein nod a'n hamcanion allweddol

11 Crynhoir ein nod cyffredinol a'n pedwar amcan allweddol ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a 2016 yn Arddangosyn 1.

12 Mae ein nod yn canolbwyntio ar rymuso pobl Cymru a chefnogi cyrff cyhoeddus yng Nghymru drwy drosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol. Fe'i mynegir fel canlyniad yr ydym yn gyfrannwr allweddol tuag ato oherwydd ein statws hollol annibynnol, ein harbenigedd proffesiynol a'n hawliau helaeth i weld gwybodaeth drwy ein pwerau archwilio a'n swyddogaethau statudol.

13 Mae ein tri amcan sylfaenol cyntaf yn canolbwyntio ar gyflawni nod triphlyg gwaith archwilio yn effeithiol – sef rhoi sicrwydd, rhoi cipolwg a hyrwyddo gwelliannau. Mae ein pedwerydd amcan yn ategu'r tri cyntaf, sef: er mwyn darparu gwasanaeth archwilio o'r radd flaenaf, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru fod yn sefydliad a reolir yn dda sy'n sicrhau gwerth am arian (gweler yr Atodiad am ein crynodeb o'n strategaeth ar gyfer y gweithlu a'n strategaeth ariannol yn y tymor canolig).

### Arddangosyn 1 – Ein nod a'n pedwar amcan allweddol



# Ein hamgylchedd gweithredu

14 Yn yr adran hon, rydym yn disgrifio'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar yr hyn y byddwn yn ei wneud er mwyn cyflawni ein nod a'n hamcanion yn ystod cyfnod y strategaeth hon, sef 2013 i 2016.

## Rydym mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol

15 Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu torri gwariant ar wasanaethau cyhoeddus a lles yn ystod oes y Senedd bresennol. Bydd arian cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn parhau i ostwng mewn termau real yn ystod cyfnod y strategaeth hon, a bydd toriadau mawr iawn i arian cyfalaf. Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud toriadau ariannol ym mhob adran mewn termau real ac mae wedi blaenoriaethu gwariant ar wasanaethau i'r cyhoedd.

16 Mae'n anochel y bydd cyfyngiadau ariannol a osodir gan lywodraethau cenedlaethol yn effeithio ar wasanaethau lleol. Mae cynghorau yn wynebu gostyngiadau sylweddol yn eu cyllid ac mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu'r setliad ariannol llymaf yn y DU ochr yn ochr â phwysau costau cynyddol. Mae sylwebyddion yn cytuno y byddwn yn teimlo effaith y penderfyniadau hyn ynghylch gwariant am rai blynyddoedd i ddod ac yn sicr ar ôl i dymor y deddfwrfeydd cyfredol yng Nghaerdydd a San Steffan ddod i ben.

17 O ganlyniad, mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fod yn uchelgeisiol o ran dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau, fel y gallant gynnal a diogelu canlyniadau am gost is. Gweddnewid drwy arloesi, rhannu arfer da a gweithredu arno a gwella effeithlonrwydd yw'r ateb cynaliadwy yn yr hirdymor. Ond mae'n annhebygol y gwelir gweddnewid ar raddfa eang yn ddigon cyflym i'w gwneud yn bosibl i wasanaethau cyhoeddus lenwi'r bylchau ariannu a wynebant yn y tymor byr. Mae'n debyg y bydd angen rhai toriadau - o ran swyddi a lefelau gwasanaethau. Yr her yw sicrhau bod y penderfyniadau hynny yn gywir, rheoli disgwyliadau'r cyhoedd a lleddfu'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

18 Ochr yn ochr â'r toriadau arfaethedig mewn gwariant ar les, mae'r Ddeddf Diwygio Lles yn cyflwyno ystod eang o ddiwygiadau a fydd yn cael cryn effaith ar bobl Cymru mewn cyfnod o galedi economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno 'credyd cynhwysol' yn lle amrywiaeth o fudd-daliadau presennol sy'n dibynnu ar brawf modd a chredydau treth i bobl o oedran gweithio, yn dechrau o 2013. Mae pobl yng Nghymru yn dibynnu mwy ar fudd-daliadau lles na'r DU yn gyffredinol ac amcangyfrifir bod yr arian a gollir ar gyfartaledd fel canran o incwm fesul cartref yn fwy yng Nghymru na'r DU yn gyffredinol[5].

## Mae polisi yng Nghymru a pholisi yn Lloegr yn parhau i ymwahanu drwy broses ddatganoli gynyddol

19 Ers datganoli, mae gweinyddiaethau olynol yng Nghymru wedi parhau i ddilyn llwybr gwahanol i lwybr San Steffan mewn nifer o feysydd polisi pwysig. Yn benodol, mae eu hymagwedd tuag at ddefnyddio marchnadoedd mewnol wedi canolbwyntio ar ddatblygu trefniadau ar gyfer cydweithredu a rhannu dysgu yn hytrach na defnyddio tablau cynghrair neu ddata cymharol mewn ffordd sy'n mynd ati i ysgogi gormod o gystadleuaeth rhwng cyrff yn y sector cyhoeddus.

20 Mae'r materion penodol a wynebir yng Nghymru hefyd yn dylanwadu ar wahaniaethau o ran polisi, yn enwedig o'u rhoi o fewn cyd-destun rhyngwladol[6]. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- y ffaith bod gan Gymru gyfran gymharol uchel o bobl hŷn;

5 Ffynhonnell: Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru - Dadansoddiad Cam 1, Llywodraeth Cymru, Chwefror 2012

6 Am ragor o wybodaeth gweler: *Wales: Some International Comparisons,* Llywodraeth Cymru, Hydref 2010

- y ffaith bod GMC y pen yng Nghymru yn gymharol isel;
- o gymharu â gweddill y DU, y ffaith bod gan Gymru boblogaeth gymharol wasgaredig;
- y ffaith bod gan Gymru gyfran uwch o bobl 25-64 oed â chymwysterau isel, neu ddim cymwysterau, o gymharu â chyfartaledd OECD a'r DU;
- y ffaith bod tua thri o bob pump oedolyn a thraean o blant yn cael eu dosbarthu fel unigolion dros bwysau neu ordew ac mai dim ond tua thri o bob 10 o oedolion sy'n nodi eu bod yn gwneud ymarfer corff bum diwrnod neu fwy yr wythnos[7].

21 Yn sgil pwerau deddfu a benthyca cyfalaf[8] newydd Llywodraeth Cymru, mae'n ddigon posibl y bydd yr ymwahanu hwn yn dod yn fwy amlwg yn ystod cyfnod y strategaeth hon. Erbyn hyn gweithio mewn partneriaeth yw'r norm i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Er mwyn sicrhau eglurder ynghylch y ffordd y dylai gwasanaethau cyhoeddus gydweithio, mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi nodi ôl troed daearyddol ar gyfer gweithgarwch cydweithredol rhanbarthol ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gan gysoni ffiniau rhanbarthol cynghorau lleol â gwasanaethau cyhoeddus eraill megis iechyd a'r heddlu[9].

22 Mae nifer o fodelau gwasanaeth a rennir a modelau gwasanaeth arloesol wrthi'n cael eu hystyried a gallai'r agenda hon newid patrymau darparu gwasanaethau yn sylweddol ar draws nifer o swyddogaethau. Ceir pwyslais cynyddol ar y trydydd sector fel partner wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, a all ychwanegu gwerth a darparu amrywiaeth eang o gymorth.

23 Mae Cymru yn gwneud defnydd helaethach o arian grant penodol na rhannau eraill o'r DU ac mae nifer y cynlluniau yn gymharol uchel. Mae Llywodraeth Cymru a chyllidwyr statudol eraill yn defnyddio grantiau fel offeryn pwerus i gyflawni amcanion polisi, gan alluogi llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol yn benodol i ddarparu gwasanaethau penodol i bobl Cymru. Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi dangos bod llawer o gynlluniau grant yn cael eu rheoli'n wael, mai anaml y dysgir gwersi a bod cyllidwyr yn aml yn methu â mynd i'r afael â pherfformiad gwael y rhai sy'n derbyn grantiau[10].

## Mae diddordeb yn effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu yn cynyddu ac erbyn hyn mae cwmpas ehangach i ofynion adrodd

24 Mae aelodau a swyddogion cyrff cyhoeddus yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu eu busnes a gwarchod yr adnoddau sydd ganddynt. Mae llywodraethu da, atebolrwydd a thryloywder yn un o gonglfeini dull Llywodraeth Cymru o wella gwasanaethau cyhoeddus.

25 Fel rhan o'i Rhaglen Lywodraethu bresennol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu comisiwn annibynnol i adolygu'r trefniadau ar gyfer llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y tîm adolygu yn gwneud argymhellion o ran y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus hynny a bydd Llywodraeth Cymru yn nodi model ar gyfer darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ar ôl ystyried argymhellion yr adolygiad[11].

7 Ffynhonnell: *Arolwg Iechyd Cymru 2011,* Llywodraeth Cymru, 2012

8 Cytunwyd mewn egwyddor – gweler *Diwygio'r drefn ariannu: datganiad cynnydd ar y cyd,* Llywodraeth EM a Llywodraeth Cymru, Hydref 2012

9 Ffynhonnell: *Comparison of the Regional Collaborative Areas,* Llywodraeth Cymru, Mawrth 2012

10 Ffynhonnell: *Rheoli Grantiau yng Nghymru,* Swyddfa Archwilio Cymru, Tachwedd 2011

11 Ffynhonnell: *Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu,* Llywodraeth Cymru, Mai 2012

26 Rydym wedi cyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd ar nifer o faterion yn ddiweddar, sy'n ymwneud yn aml â methiannau yn nhrefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus. Hefyd, mae gwaith dadansoddi partneriaethau lleol a wnaed gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn cadarnhau bod gwendidau o ran llywodraethu a bod llawer o'r dirwedd partneriaethau yng Nghymru ond yn rhannol ymatebol i brosesau llywodraethu corfforaethol[12].

27 Erbyn hyn mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus gyflwyno adroddiadau ar eu trefniadau llywodraethu mewn Datganiad Llywodraethu blynyddol a gyhoeddir. Dylai'r Datganiad sicrhau bod gan y darllenwr ddealltwriaeth glir o ddynameg y sefydliad a'i strwythur rheoli, gan gofnodi stiwardiaeth y sefydliad a rhoi amcan o wendidau'r sefydliad a'i allu i wrthsefyll heriau. Mae Datganiadau Llywodraethu wedi disodli'r Datganiadau Rheoli Mewnol a oedd yn ofynnol gynt. Mae iddynt gwmpas ehangach ac maent yn cwmpasu pob agwedd ar y gwaith o reoli a rhedeg cyrff cyhoeddus. Efallai mai'r newid mwyaf nodedig yw'r gofyniad i roi mwy o sicrwydd a thystiolaeth o ran trefniadau cydweithio a phartneriaethau; mater sy'n arbennig o berthnasol yng Nghymru.

28 Fodd bynnag, mae'r dull gweithredu hwn yn dal i ddibynnu i raddau helaeth ar hunan-ardystio gan gyrff cyhoeddus eu bod yn cynnal eu trefniadau llywodraethu ar lefel sy'n gyson ag arfer da. Mae'r archwilydd allanol yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig a gall gyflwyno adroddiad ar unrhyw anghysondeb â chanfyddiadau ei archwiliad neu ei wybodaeth o'r busnes.

## Mae dyletswyddau a safonau 'trawsbynciol', newydd wedi'u cyflwyno yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac maent yn parhau i gael eu cyflwyno

29 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i ddeddfu er mwyn sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2012, ymgynghorodd ar gynigion ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy, gan gynnwys cyflwyno dyletswydd sy'n:

- gymwys i benderfyniadau lefel uwch a fabwysiedir gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus;
- sicrhau bod y penderfyniadau hynny wedi'u llywio gan ffactorau datblygu cynaliadwy;
- ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyflwyno adroddiadau ar y ffordd y maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd.

30 Hefyd, nododd yr ymgynghoriad gynigion i roi rôl statudol i'r Archwilydd Cyffredinol o ran ystyried datblygu cynaliadwy[13].

31 Mae'r ddyletswydd arfaethedig o ran datblygu cynaliadwy yn dilyn y dyletswyddau statudol o ran cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig sy'n ymwneud yn benodol â Chymru[14]. Ym mis Ebrill 2012, yn unol â'r fframwaith cyfreithiol newydd, cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi'r pethau allweddol y bwriadwn eu gwneud drwy ein gwaith archwilio ac fel cyflogwr i helpu i ddileu achosion o wahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da.

12 Ffynhonnell: *Cydamcanu – Cydymdrechu* , ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Ionawr 2012
13 Am ragor o wybodaeth gweler: *Cymru Gynaliadwy - Dewis Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell,* Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2012
14 O dan y Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi pennu Cydraddoldebau Penodol i'r Sector Cyhoeddus.

32 At hynny, cafodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Gydsyniad Brenhinol ar 9 Chwefror 2011. Mae'r Mesur hwn yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac yn darparu ar gyfer pennu safonau ar gyfer cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Yn ddiweddar cynhaliwyd ymgynghoriad dan arweiniad Comisiynydd y Gymraeg cyn cyflwyno safonau yn ffurfiol[15].

## Mae'r dirwedd adolygu allanol yn parhau i ddatblygu

33 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 9 Gorffennaf 2012. Mae i'r Bil nifer o oblygiadau pwysig o ran y ffordd y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i strwythuro a'n cynlluniau gwaith yn y dyfodol. Bwriad y Bil yw 'atgyfnerthu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Swyddfa Archwilio Cymru heb gyfyngu ar annibyniaeth allweddol yr Archwilydd Cyffredinol i ystyried pa bynnag bynciau a ddewisir ganddo'. Ar hyn o bryd mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys:

- sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol â bwrdd;
- trosglwyddo pob aelod o staff i gyflogaeth Swyddfa Archwilio Cymru;
- nodi'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol.

Disgwylir i'r ddeddfwriaeth ddod yn gwbl weithredol ym mis Ebrill 2014, gyda 2013-14 yn flwyddyn drosiannol.


34 Yn fwy cyffredinol, bu nifer o newidiadau i'r dirwedd adolygu allanol yng Nghymru (er enghraifft, sefydlu Comisiynydd y Gymraeg a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru), a ledled y DU, gan gynnwys newidiadau sylfaenol i'r gyfundrefn archwilio gyhoeddus leol yn Lloegr.

35 At hynny, er gwaethaf y gofyniad hanfodol i archwilwyr fod yn annibynnol, mae ymrwymiad cynyddol a galw ledled y DU am fwy o weithio cydgysylltiedig rhwng cyrff archwilio allanol - er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfunol a rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol er mwyn ategu asesiadau cadarn ac amserol o'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus[16].

36 Yng Nghymru, nodwyd y disgwyliad hwn yn *Natganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru* a gyhoeddwyd ym mis Medi 2009, ac a ailddatganwyd yn yr adroddiad cynnydd blynyddol cysylltiedig ym mis Mawrth 2011. Mae'r Rhaglen Lywodraethu bresennol yn cynnwys ymrwymiad i adolygu'r system adolygu allanol yng Nghymru. Mae cwmpas amlinellol yr adolygiad wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn cwmpasu'r fframwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio.

## Rydym yn byw mewn cymdeithas fwyfwy rhwydweithiol

37 Mae technoleg ddigidol yn cynnig cyfleoedd newydd i bobl ryngweithio â phob lefel o lywodraeth a dylanwadu arnynt. Mae hefyd yn cynnig modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau newydd a ffyrdd newydd o ymgysylltu â'r cyhoedd. Am fod technoleg yn datblygu'n gyflym, mae'r cyhoedd yn disgwyl i'r broses o ryngweithio â chyrff cyhoeddus fod mor hawdd â bancio dros y rhyngrwyd neu siopa ar-lein. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn ystyried bod gweithgarwch ymgysylltu drwy



15 Am ragor o wybodaeth gweler: *Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg: Beth yw'ch barn?* Comisiynydd y Gymraeg, Mai 2012

16 Er enghraifft, fel y nodwyd yn *Report of the Independent Review of Regulation, Audit, Inspection and Complaints Handling of Public Services in Scotland*, Medi 2007.

dechnolegau digidol yn rhan annatod o'r agenda ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol.

38 Nid dim ond ar y cyrff cyhoeddus a archwilir gennym y bydd cymdeithas fwyfwy rhwydweithiol yn effeithio. Mae hefyd yn cael cryn effaith ar asiantaethau archwilio. Mae Dr Rudi Turksema, o Lys Archwilio'r Iseldiroedd, wedi nodi:[17]

'Twenty five years ago, the accountant or auditor was seen as an authority. Whenever we published an audit report – after several months of meticulous and rigorous scrutinising – it could make a serious impact on the executive. Nowadays, in the connected, open, 24/7, and online society, a 'tweet' can have much more impact than an audit report…'

39 Mae angen i asiantaethau archwilio a chyrff adolygu allanol eraill gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau technegol a manteisio ar gyfleoedd newydd i godi ymwybyddiaeth o'u gwaith a chynyddu diddordeb ynddo cymaint â phosibl, casglu gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau ar eu canfyddiadau.

40 Fodd bynnag, mae angen cadw dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu is-dechnoleg mwy sefydledig o hyd. Mae nifer y cartrefi sy'n manteisio ar wasanaethau band eang sefydledig yn dal i fod yn is na chyfartaledd y DU ac, ar hyn o bryd, gwelir mai argaeledd gwasanaethau band eang cyflym iawn i gartrefi yng Nghymru yw'r isaf o blith gwledydd y DU[18].

17 Erthygl Rudi Turksema 'We have to change to stay the same' yn *The future of public audit,* SOLACE Foundation Imprint, Ebrill 2012.

18 Ffynhonnell: *Communications Market Report: Wales;* Ofcom, Gorffennaf 2012

# Sut y byddwn yn ymateb

41 Mae'r adran hon yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn ystod cyfnod y strategaeth hon er mwyn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu a chyflawni ein nod a'n hamcanion.

## Cynnal ein gwaith archwilio gan roi pwyslais ar galedi

42 Mae gwaith archwilio cyhoeddus yn cynnwys archwiliadau o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, (a elwir gyda'i gilydd yn werth am arian), o ran defnyddio adnoddau cyhoeddus. Mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol a chaledi fel yr un presennol, mae'n rhaid newid pwyslais ein gwaith archwilio. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ba mor dda y gall cyrff cyhoeddus barhau i ddarparu neu wella gwasanaethau tra'n wynebu toriadau sylweddol i'w cyllid – gweler Arddangosyn 2.

### Arddangosyn 2 – Agweddau ar ein gwaith archwilio a phwyslais mewn cyfnod o galedi ariannol

| Agweddau ar waith gwerth am arian | Yn ymwneud â'r canlynol: | Pwyslais mewn cyfnod o galedi: |
|---|---|---|
| Darbodusrwydd | Cost adnoddau a gaffaelwyd neu a ddefnyddiwyd | Cyflawni'r un canlyniadau neu ganlyniadau gwell am lawer llai o adnoddau |
| Effeithlonrwydd | Allbwn gwasanaethau a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w gyflawni | |
| Effeithiolrwydd | Canlyniadau arfaethedig a gwirioneddol prosiectau a rhaglenni | |

43 Ar gyfer cyfnod y strategaeth hon bydd ein gwaith archwilio yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at helpu cyrff cyhoeddus i ymdopi ag effaith toriadau ariannol a llwyddo er gwaethaf y toriadau hynny. Rydym o'r farn mai dyma'r elfen bwysicaf o'n hymateb i'n hamgylchedd gweithredu, ynghyd â'n hymrwymiad ni ein hunain i geisio gwneud mwy gyda llai a gweithio'n galetach yn ogystal ag yn ddoethach. Bydd agweddau allweddol ar ein gwaith yn cynnwys y canlynol:

- gwneud sylwadau ar faint yr her sy'n ein hwynebu ac esbonio'r dewisiadau anodd sydd angen eu gwneud;
- nodi'r risgiau cyffredin sy'n wynebu cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac asesu pa mor dda y maent wedi ystyried y risgiau hynny ac y maent yn ymateb i effaith newidiadau i gyllid;
- ystyried cryfder trefniadau rheoli ariannol ac asesu pa un a ellir cyflawni cynlluniau arbedion;
- gwneud cymariaethau er mwyn nodi sut mae cyrff cyhoeddus, gan gynnwys y rheini mewn gwledydd eraill, yn ymdrin â chaledi;
- darparu triniaeth archwilio gadarn mewn meysydd lle y gallwn nodi a mesur arbedion ac arbedion effeithlonrwydd posibl;
- parhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau;
- asesu a gwneud sylwadau ar ba mor effeithiol y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda phartneriaid i wella ac ehangu gwasanaethau;
- argymell camau gweithredu ymarferol sy'n gyson â datblygu cynaliadwy er mwyn helpu i drawsnewid gwasanaethau;
- sicrhau bod ein rhaglen archwilio yn parhau i fod yn hyblyg fel y gallwn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i faterion a ddygwyd i'n sylw;
- ystyried goblygiadau ariannol penderfyniadau polisi, ac ystyried prosiectau yn gyflymach ac ar gam cyflawni cynharach fel y gallwn edrych ymlaen a nodi'r materion a'r heriau allweddol sydd angen eu rheoli.

## Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da

44 Mae angen i gyrff adolygu allanol, a'r cyrff y maent yn eu hadolygu, allu asesu'n effeithiol a yw newidiadau yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu, er enghraifft, drwy drefniadau cydweithredol, yn cynnig gwell gwerth am arian cyhoeddus tra'n cynnal neu'n gwella ansawdd gwasanaethau.

45 Mae meincnodi yn agwedd hanfodol ar adolygiad allanol o drefniadau cydweithredol: cymharu prosesau busnes a cheisio cymariaethau perfformiad cadarn o ran canlyniadau, gan gynnwys o'r tu allan i'r DU lle y bo'n briodol. Agwedd arall yw hwyluso cyfnewid dysgu ac arfer da. Yn ein harolygon o randdeiliaid a gynhaliwyd ym mis Ebrill a Mai 2012 cafwyd negeseuon clir am y gwerth a roddir ar y gwaith a wnawn i hyrwyddo rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n harchwiliadau. Nododd 80 y cant o'r ymatebwyr eu bod o'r farn bod y gwaith hwn naill ai'n ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

46 Yn ystod y tair blynedd nesaf, wrth i bolisi Cymru a modelau darparu gwasanaethau barhau i ymwahanu yn lleol ac yn genedlaethol, byddwn yn ymgymryd â gweithgarwch meincnodi, gan gynnwys cymharu perfformiad o ran canlyniadau, yn fwy rheolaidd fel rhan o'n gwaith archwilio, tra'n cydnabod y gwahaniaethau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n bodoli ledled Cymru.

47 Byddwn hefyd yn mynd ati i gynyddu'r gwaith a wnawn i ysgogi a hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth archwilio ac arfer da sylweddol. I'r perwyl hwn byddwn yn gwneud y canlynol:

- cynnwys mwy o enghreifftiau o arfer da yn ein hadroddiadau archwilio, o ffynonellau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys o'r sector preifat a'r trydydd sector, fel y bo'n briodol;
- darparu digwyddiadau a gweithdai dysgu a rennir yn fwy rheolaidd fel allbynnau o'n gwaith archwilio, a mynd ati i sganio ar gyfer digwyddiadau sydd yn yr arfaeth gan sefydliadau eraill y gallem wneud cyfraniad sylweddol atynt;
- ychwanegu cryn dipyn at gynnwys ein Cyfnewidfa Arfer Da, gan gynnwys yn benodol bynciau newydd sy'n berthnasol i'r gwaith o ymdrin â'r cyfnod o galedi a darparu gwasanaethau ar y cyd, gan nodi astudiaethau achos drwy ein gwaith archwilio ac o ymchwil ehangach;
- creu rhagor o gysylltiadau â sefydliadau, darparwyr a rhwydweithiau sy'n weithredol ym maes trosglwyddo gwybodaeth a gwella gwasanaethau, er mwyn sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig ac osgoi'r potensial ar gyfer dyblygu;
- mynd ati i gynnig sylwadau a dirnadaeth o'n gwaith archwilio i weithgorau polisi yn y sector cyhoeddus;
- parhau i feithrin cydberthnasau cadarn ac adeiladol â phwyllgorau archwilio a thimau rheoli ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac â chyrff proffesiynol a chynrychioliadol.

## Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd

48 Mewn ymateb i ddiddordeb cynyddol y cyhoedd yn effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a chwmpas ehangach gofynion adrodd, bwriadwn adolygu ein fframwaith archwilio yn ystod cyfnod y strategaeth hon, er mwyn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd.

49 Yn benodol, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu'r agweddau canlynol ar ein gwaith ymhellach a chynyddu eu gwerth cyfunol cymaint â phosibl, tra'n sicrhau bod y dull a ddefnyddir ar gyfer pob corff a archwilir yn gymesur ac wedi'i deilwra'n unigol:

- adolygu datganiadau llywodraethu er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig a'r wybodaeth arall rydym yn ymwybodol ohoni;
- hyrwyddo a rhannu gwybodaeth am weithgarwch rheoli ariannol a rheoli risg effeithiol;

- cyflwyno adroddiadau ar faterion ariannol na fyddent, o bosibl, yn berthnasol i'r farn archwilio ond sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd, megis effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a gweinyddu busnes cyhoeddus yn briodol;

- bodloni ein hunain bod corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd a wna o adnoddau, gan gynnwys drwy ddibynnu ar waith arall a wnaed gennym[19] a gwaith cyrff adolygu allanol eraill.

50 Wrth roi sicrwydd pellach ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, byddwn yn cyfeirio'n benodol at y *Good Governance Standard for Public Services*[20], sy'n nodi chwe egwyddor craidd o ran llywodraethu da ar gyfer sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus:

- canolbwyntio ar ddiben y sefydliad ac ar ganlyniadau ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau;

- perfformio'n effeithiol mewn swyddogaethau a rolau a ddiffinnir yn glir;

- hyrwyddo gwerthoedd ar gyfer y sefydliad cyfan a dangos gwerthoedd llywodraethu da drwy ymddygiad;

- gwneud penderfyniadau hyddysg, tryloyw a rheoli risg;

- datblygu gallu ac adnoddau'r corff llywodraethu i fod yn effeithiol;

- ymgysylltu â rhanddeiliaid a sicrhau bod atebolrwydd gwirioneddol.

## Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, ar gydraddoldeb ac ar y defnydd o'r iaith Gymraeg

51 Yn ystod cyfnod y strategaeth hon byddwn yn ceisio ymdrin ag ystyriaethau datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg yn fwy cynhwysfawr yn ein hadroddiadau archwilio. Byddwn yn gweithio'n agos â phartïon eraill, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, i ddatblygu fframwaith adrodd sy'n gymesur ac yn dibynnu ar waith cyrff adolygu allanol eraill, lle y bo'n briodol. Ar ôl ei gwblhau, byddwn yn gofyn i'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd y Gymraeg ddilysu'r fframwaith.

52 Yn yr un modd, yn ystod cyfnod y strategaeth hon, byddwn ni, fel corff sector cyhoeddus, yn sicrhau ac yn dangos cydymffurfiaeth â dyletswyddau a safonau o ran datblygu cynaliadwy, gan gynnwys cydraddoldeb a'r defnydd o'r iaith Gymraeg, drwy'r ffordd rydym yn rhedeg ein busnes.

53 Os parheir â'r ymagwedd tuag at ddatblygu cynaliadwy a gynigir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, yna yn y dyfodol bydd archwilydd corff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn:

- cynnal adolygiad o pa un a chymhwyswyd y ddyletswydd fel rhan o benderfyniadau lefel uwch, yn arbennig wrth bennu strategaeth hirdymor, cynllun a chyllideb blynyddol, a pholisïau allweddol;

- rhoi adroddiad ar yr adolygiad (adroddiad cydymffurfiaeth) ynghyd â'r dystysgrif neu adroddiad ar y cyfrifon (rhoddir pob adroddiad cydymffurfiaeth o'r fath i'r corff datblygu cynaliadwy newydd er gwybodaeth);

- ystyried pa un a yw'r adolygiad yn codi pryderon o ran pa un a yw'r corff yn cydymffurfio â'r ddyletswydd y mae angen eu hystyried ymhellach.

19 Gall y gwaith hwn gynnwys archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, ardystio ceisiadau a ffurflenni, ymarferion paru data ac, ar gyfer cyrff llywodraeth leol, gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

20 Datblygwyd gan y Comisiwn Annibynnol ar Lywodraethu Da ym maes Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda chymorth Sefydliad Joseph Rowntree, CIPFA a'r Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus Cyf.

54 O bryd i'w gilydd, byddwn hefyd yn cynnal astudiaethau trawsbynciol o faterion datblygu cynaliadwy a nodwyd drwy ein gwaith gyda chyrff unigol, gan ddefnyddio pwerau archwilio ac astudio.

55 Mae ein hamcanion cydraddoldeb o ran ein gwaith archwilio yn cynnwys ceisio barn pobl sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchodedig a'i hystyried wrth benderfynu pa waith gwerth am arian y byddwn yn ymgymryd ag ef, pennu cwmpas y gwaith hwnnw a llunio gwaith maes ar gyfer prosiectau o'r fath.

56 Mae ein hamcanion cydraddoldeb o ran y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes yn cynnwys dileu unrhyw wahaniaethau cyflog sylweddol rhwng y rhywiau neu unrhyw wahaniaethau cyflog eraill o fewn bandiau cyflog Swyddfa Archwilio Cymru.

## Gweithio'n agosach gyda chyrff adolygu allanol eraill a gwella'r ffordd rydym yn rhedeg ein busnes yn ystod cyfnod pontio

57 Tra'n parhau â'r angen i sicrhau bod archwilwyr yn annibynnol, a chan gydnabod gwahaniaethau yn eu cyfansoddiad, eu cylch gwaith statudol a'u hamcanion strategol, byddwn yn gweithio'n agosach gyda chyrff adolygu allanol eraill yn ystod y cyfnod rhwng 2013 a 2016 er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau cyfunol. Yn benodol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- adeiladu ar y trefniadau cydweithredu sy'n bodoli eisoes rhwng asiantaethau archwilio cenedlaethol y DU a chyrff pennu safonau, a chyda chyrff archwilio rhyngwladol, er mwyn gwella effeithiolrwydd gweithgarwch archwilio cyhoeddus;
- ehangu mynediad i ffynonellau arbenigedd, profiad a sgiliau arbenigol allanol[21];
- chwarae rôl allweddol o ran sicrhau bod gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yng Nghymru yn cael ei gydgysylltu'n effeithiol a'i fod yn cyflawni'r buddiannau bwriadedig;
- gweithio gyda'r prif gyrff arolygu a rheoleiddio yng Nghymru er mwyn datblygu trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth, ac ar gyfer hyrwyddo gwelliant wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ymhellach.

58 Ym mis Ionawr 2011, llofnododd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gytundeb strategol yn cynnwys amcanion allweddol ar gyfer gwell cydweithredu (rydym hefyd wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth dwyochrog gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ddiweddar). Yn ystod cyfnod y strategaeth hon, byddwn yn gweithio gyda'n cyfoedion i gyflawni'r amcanion hyn a'u datblygu ymhellach.

59 Byddwn hefyd yn gweithio i wella'n barhaus y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes a sicrhau bod y broses o drosglwyddo i drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru mor ddidrafferth â phosibl gyda chyn lleied o effaith ar ein gwaith archwilio â phosibl. Bwriedir cyflawni hyn drwy waith cynllunio gofalus a gwerthfawrogiad llawn o'r gofynion deddfwriaethol o ran strwythurau sefydliadol ac adnoddau.

21 Am ragor o wybodaeth gweler: *Strategaeth Gontractio ac Archwiliadau o Gynghorau Tref a Chymuned,* Swyddfa Archwilio Cymru, Chwefror 2012

## Codi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chynyddu diddordeb ynddo, gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol

60 Ar gyfer cyfnod y strategaeth hon byddwn yn mynd ati i geisio codi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chynyddu diddordeb ynddo er mwyn sicrhau ei fod yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd penodol canlynol:

- llywio'r gwaith o lunio ein rhaglen waith a'n methodolegau;
- nodi barn, profiadau a phryderon defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau;
- cyfleu canlyniadau ein gwaith;
- cyfnewid gwybodaeth archwilio ac arfer da.

61 I'r perwyl hwn, byddwn yn ceisio gwneud defnydd mwy effeithiol o dechnoleg gwybodaeth, gan gynnwys cymwysiadau ar y we a chyfryngau cymdeithasol lle y bo'n briodol, tra'n parhau i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu eraill, gan gynnwys cyfnewid gwybodaeth wyneb-yn-wyneb. Byddwn yn parhau i ymdrechu i fynegi ein hunain mewn iaith y gall y cyhoedd a chyrff cyhoeddus ei deall, a sicrhau bod y cyfryngau yn deall ein gwaith ac yn cyflwyno adroddiadau arno.

# Monitro a chofnodi ein perfformiad

62 Ar gyfer cyfnod y strategaeth hon byddwn yn gwella ein fframwaith monitro a chofnodi perfformiad er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn agosach â'n nod strategol a'n hamcanion allweddol a rhoi darlun cliriach o sut rydym yn perfformio. Yn benodol, byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar werthuso ein 'cyfeiriad teithio', ochr yn ochr â gwneud cymariaethau â meincnodau priodol.

63 Yn ystod 2013-2016, byddwn yn rhoi sylw penodol i olrhain ac adrodd ar y canlynol:

- Maint, ansawdd, amseroldeb ac effaith ein gwaith
- Faint o arbedion ac arbedion effeithlonrwydd posibl a nodwyd drwy ein gwaith
- Ein gweithgarwch i ymgysylltu â'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr a'r defnydd a wnawn o dechnoleg i wella mynediad atom ni a'n gwaith
- Cynaliadwyedd gan gynnwys arbedion, arbedion effeithlonrwydd a'n heffaith ar yr amgylchedd
- Yr hyn a ddywed cyrff cyhoeddus yng Nghymru a rhanddeiliaid eraill wrthym am ein gwaith
- Yr hyn a ddywed ein staff wrthym am y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes

64 Byddwn yn defnyddio cyfuniad o ddulliau i gofnodi ein perfformiad a myfyrio arno. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar fesurau perfformiad allweddol (gweler Arddangosyn 3) a thargedau[22] i'n tîm rheoli a'r Bwrdd Cysgodol, ac adroddiadau archwilio mewnol i'n Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a phwyllgorau llywodraethu eraill. Yn ein hadroddiad blynyddol, byddwn yn darparu hunanasesiad o'n cynnydd wrth gyflawni'r strategaeth ac yn gwerthuso ein heffaith yn erbyn y mesurau a'r targedau hyn. Yn ystod ail flwyddyn cyfnod y strategaeth, byddwn yn comisiynu corff allanol i gynnal asesiad annibynnol o effaith ein gwaith, ac i roi gwerthusiad annibynnol o'n llwyddiant wrth gyflawni ein nod a'n hamcanion.

65 Byddwn yn adrodd ar ein perfformiad yn allanol drwy ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon, a thrwy roi tystiolaeth yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

22 I'w gyhoeddi bob blwyddyn yn ein Cynlluniau Gweithredol

## Arddangosyn 3 - Ein mesurau perfformiad allweddol

| Sut y byddwn yn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac yn cyflawni ein nod a'n hamcanion | Mesurau perfformiad allweddol cysylltiedig |
|---|---|
| Cynnal ein gwaith archwilio gan roi pwyslais ar galedi | a Gwerth yr arbedion posibl a nodwyd drwy ein gwaith<br>b Nifer yr argymhellion a wneir gennym sy'n ymwneud yn uniongyrchol â diogelu a gwella gwasanaethau i'r cyhoedd<br>c Cyfran ein rhanddeiliaid sy'n ystyried ein bod yn sylwebydd annibynnol, awdurdodol ar y sefyllfa ariannol |
| Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da | ch Nifer/cyfran yr allbynnau/adroddiadau sy'n cynnwys gwaith meincnodi neu ddadansoddiadau cymharu (a) yng Nghymru a (b) y tu hwnt i Gymru<br>d Cyfran ein rhanddeiliaid sydd o'r farn bod effaith fuddiol ein harfer da a'n gweithgareddau dysgu a rennir yn cynyddu<br>dd Cyfran y cyrff a archwilir gennym sydd o'r farn bod effaith fuddiol ein gwaith i'w helpu i ddysgu oddi wrth ei gilydd (drwy feincnodi a chymharu perfformiad) yn cynyddu |
| Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd | e Cyfran ein rhanddeiliaid sydd o'r farn bod effaith fuddiol ein gwaith i helpu i wella trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus yn cynyddu<br>f Cyfran ein hargymhellion ar gyfer gwella trefniadau llywodraethu a gaiff eu rhoi ar waith gan gyrff cyhoeddus |
| Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, ar gydraddoldeb ac ar y defnydd o'r iaith Gymraeg | ff Yn ystod blwyddyn gyntaf y strategaeth hon: ein cynnydd wrth gynllunio ein dull asesu mewn perthynas â dyletswyddau cyrff cyhoeddus o dan ddeddfwriaeth datblygu cynaliadwy a chydraddoldebau newydd<br>Yn ystod yr ail flwyddyn: ein cynnydd wrth gyflwyno'r dull hwn i bob corff cyhoeddus yng Nghymru<br>Yn ystod y drydedd flwyddyn: ein cynnydd wrth werthuso effaith ein dull a'i fireinio fel y bo'r angen<br>g I ba raddau rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i ystyried goblygiadau asesu'r ddeddfwriaeth newydd bosibl mewn perthynas â safonau'r Gymraeg |

| Sut y byddwn yn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac yn cyflawni ein nod a'n hamcanion | Mesurau perfformiad allweddol cysylltiedig |
|---|---|
| Gweithio'n agosach gyda chyrff adolygu allanol eraill | ng Cyfran ein rhanddeiliaid sydd o'r farn ein bod yn gweithio'n fwy effeithiol gyda chyrff adolygu allanol eraill<br>h I ba raddau y datblygwyd ein hallbynnau mewn cydweithrediad â chyrff adolygu allanol eraill |
| Gwella'r ffordd yr ydym yn rhedeg ein busnes drwy gyfnod o newid | i Lefelau boddhad a welwyd yn safbwyntiau aelodau o staff, swyddogion anweithredol, yr Archwilydd Cyffredinol, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill<br>l Cyfran yr argymhellion archwilio mewnol ac allanol a dderbyniwyd a roddwyd ar waith<br>ll Perfformiad yn erbyn ein dangosfwrdd o fesurau effeithlonrwydd mewnol |
| Codi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chynyddu diddordeb ynddo, gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol | m Lefelau'r sylw a'r rhyngweithio a ddangoswyd gan y cyfryngau o ran monitro ystadegau, ymweliadau â gwefannau a dilynwyr drwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>n Lefelau cyfranogiad y cyhoedd wrth gynllunio ein rhaglenni gwaith ac archwiliadau unigol |

# Atodiad – Crynodeb o’n strategaeth ar gyfer y gweithlu a’n strategaeth ariannol yn y tymor canolig

## Strategaeth y gweithlu


1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau archwilio a gweithgareddau eraill. Mae’n hanfodol y gallwn gynllunio gyda digon o sicrwydd i fodloni gofynion llwyth gwaith yn awr ac yn y dyfodol ym mhob rhan o’r sefydliad, ond hefyd gadw’r hyblygrwydd sydd ei angen i allu ymateb i newidiadau a all godi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

2 Mae ein dull strategol o gynllunio’r gweithlu yn cydnabod bod angen cadw a meithrin sgiliau a gallu ein gweithlu presennol (gweler Arddangosyn 4 am y niferoedd cyfredol) er mwyn sicrhau bod gennym yr adnoddau i barhau i ddarparu gwasanaeth proffesiynol sy’n sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru.

3 Nodir isod flaenoriaethau allweddol ein strategaeth ar gyfer y gweithlu a fydd yn sail i’n prosesau i gynllunio’r gweithlu ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a 2016:

- Sicrhau bod y gweithlu yn gallu bodloni’r gofynion o ran y galw disgwyliedig yn y dyfodol, gan gynnwys drwy wneud defnydd llawn o ddawn ac amser cynhyrchiol, atgyfnerthu ein trefniadau ar gyfer cynllunio dilyniant ac olyniaeth a datblygu ein trefniadau ar gyfer defnyddio sgiliau arbenigol o’r tu allan i Swyddfa Archwilio Cymru
- Meithrin gallu arwain gweledigaethol, uchelgeisiol ac effeithiol
- Rhoi cyfleoedd pellach i staff wella eu sgiliau, eu gwybodaeth a’u profiad, gan gynnwys drwy sefydlu rhaglen secondio i gefnogi amcanion busnes
- Annog cynaliadwyedd a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg i leihau gofynion teithio

### Arddangosyn 4 – Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y cyfnod o chwe blynedd rhwng 2006-07 a 2011-2012



## Strategaeth ariannol

4 Mae'n ofynnol i ni wneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd a wnawn o adnoddau. Rhaid i ni sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn Swyddfa Archwilio Cymru a bod ei systemau a'i gweithdrefnau ariannol yn hyrwyddo proses effeithlon a darbodus o gynnal busnes a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol. Fel llawer o gyrff cyhoeddus, maes gwariant mwyaf Swyddfa Archwilio Cymru yw cyflogau staff a chostau cysylltiedig.


5 Er ein bod wedi llwyddo i leihau ein gwariant yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gweler Arddangosyn 5), mae pwysau parhaus i gynnal ac hyd yn oed gynyddu'r swm o waith archwilio a wneir gennym am gost is. Amlygodd ein Datganiad Llywodraethu blynyddol ar gyfer 2011-12 hefyd yr angen i ddatblygu a gwella ein trefniadau rheoli ariannol a'n cyfrifon rheoli ymhellach.

6 Ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a 2016, mae amcanion allweddol ein strategaeth ariannol, sy'n sail i'n gwaith cynllunio ariannol ar gyfer y tymor canolig, fel a ganlyn:

- mantoli'r gyllideb mewn modd cynaliadwy;
- gwella trefniadau cynllunio ariannol;
- gwella'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol;
- atgyfnerthu cydymffurfiaeth â rheoliadau, gan gynnwys drwy roi trefniadau monitro a rheolaethau mwy effeithiol ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â therfynau tendro'r Undeb Ewropeaidd.

7 Caiff ein strategaeth ariannol ei hailystyried bob blwyddyn wrth i ni baratoi ein hamcangyfrif blynyddol[23]. O 2013 ymlaen, byddwn hefyd yn cynnal gwerthusiadau blynyddol o'n trefniadau rheoli ariannol yn erbyn Model o Aeddfedrwydd ar gyfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

### Arddangosyn 5 – Gostyngiad cronnol mewn termau real yng nghyfanswm gwariant refeniw blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 2009-10 a 2013-14




23 Rhaid paratoi amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer pob blwyddyn ariannol a'i gyflwyno ger bron y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.